**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 24 TACHWEDD 2015 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:00)**

**Aelodau CFfDLC yn Bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Grant Thornton yn Bresennol:** John Golding

**Cynrychiolydd Deloitte yn Bresennol:** Ian Howse

**Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Bresennol:** Sinead O'Toole

**Swyddogion CFfDLC yn Bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr), Matthew Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes)

Croesawyd Theo Joloza gan y Cadeirydd, wedi iddo gael ei benodi'n ddiweddar fel Aelod o'r CFfDLC a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a Sinead O'Toole a oedd yn bresennol yn lle Lisa James.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ymddiheuriadau ar ran Ann-Marie Harkin (Swyddfa Archwilio Cymru) a Lisa James (Llywodraeth Cymru).

**2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2015.**

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2015.

**4. Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod yr holl eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau erbyn hyn neu roedd trefniadau i ddelio â nhw nes ymlaen ar yr agenda. O ran rhoi'r Cynllun Parhad Busnes ar brawf, er nad oedd modd defnyddio ystafell y Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau ar gyfer profion, bu modd o hyd cadarnhau bod trefniadau cadarn ar waith ar gyfer staff CFfDLC i gael mynediad i TG ym Mharc Cathays pe bai argyfwng.

**5. Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei Gynllun Gwaith ar gyfer 2015-16 a chynhwyswyd yr holl eitemau y nodwyd eu bod yn ofynnol mewn cyfarfodydd blaenorol. **Cytunwyd** y dylai'r eitem yn ymwneud â'r ymarferiad hunanasesu gael ei rhannu yn gamau ar gyfer pob rhan o'r flwyddyn, yn hytrach nag un eitem yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 24 Chwefror 2016

5.2 Dywedodd John Golding, oherwydd y newid i drefniadau archwilio allanol, na fyddai'n ymarferol i gynnal yr adolygiad o effeithiolrwydd archwilwyr allanol ym mis Chwefror yn ôl yr arfer. **Cytunwyd** y byddai'r adolygiad o effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol yn cael ei symud i fis Gorffennaf 2016 am y flwyddyn gyntaf wedi i Swyddfa Archwilio Cymru ymgymryd â'r rôl oddi wrth Grant Thornton.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 24 Chwefror 2016

5.3 Aeth y Pwyllgor ati i ystyried ei Gylch Gorchwyl yn sgil penodiad diweddar yr aelod Pwyllgor newydd. **Cytunwyd** y dylai manylion penodiadau pob aelod unigol gael eu dileu gan eu bod yn newid yn eithaf mynych.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 24 Chwefror 2016

## 6. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2015-16 a'r Cynllun Archwilio

6.1 Adroddodd Ian Howse fod y gwaith archwilio a wnaed ym mis Medi 2015 wedi cwmpasu meysydd Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chynllunio Strategol. Rhoddwyd manylion canfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiad, a rhoddodd raddfa sicrwydd Sylweddol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg, a Chymedrol ar gyfer Cynllunio Strategol. Gwnaeth yr adroddiad un argymhelliad blaenoriaeth ganolig ac un argymhelliad blaenoriaeth isel, sef:

- Bod Cynllun Gweithredol CFfDLC yn cael ei ddiweddaru er mwyn cysoni'r gweithgareddau i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn â'r amcanion corfforaethol. Dylai'r Cynllun Gweithredol hefyd roi mwy o fanylion mewn perthynas â'r tasgau i ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn, y swyddogion cyfrifol, y monitro wedi'i gadarnhau, cerrig milltir, deilliannau y gellir eu mesur ac effeithiau (Canolig); a
- Bod CFfDLC yn diweddaru ei Ffurflenni Adolygu Rheoli Perfformiad i ddweud yn glir sut mae amcanion aelodau staff unigol yn cysylltu ag amcanion corfforaethol y Comisiwn (Isel).

6.2 Rhoddwyd y dyddiad terfyn 31 Mawrth 2016 ar gyfer cwblhau'r argymhellion, er y cydnabuwyd y byddai'n anodd i CFfDLC wneud unrhyw gynnydd ystyrlon ar gynllunio ac amcanion strategol hyd nes derbyn Cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith arolwg. Cafwyd trafodaeth am yr atodiadau i'r adroddiad a oedd yn cynnwys delio ag archwaeth risg a'i ffurfio ar sail achos wrth achos neu faes risg, yn hytrach nag fel ymagwedd gyffredinol ar gyfer holl risgiau'r corff. **Cytunwyd** y byddai'r Pwyllgor yn cynnig i CFfDLC am i archwaeth risg cyffredinol gael ei gadw ar gyfer y cofrestri risg ond y byddai archwaeth risg ar wahân yn cael ei aseinio i brosiectau unigol y byddai CFfDLC yn ymgymryd â nhw wrth ystyried a thrafod hynny mewn cyfarfodydd.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 15 Rhagfyr 2015

6.4 Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynllun archwilio, a nodwyd bod arolygon CFfDLC i'w harchwilio yn 2017-18. Ystyriwyd y byddai hyn yn rhy gynnar yn y broses arolygon i alluogi archwiliad ystyrlon o'r gwaith arolwg. **Cytunwyd** y byddai'r 2.5 diwrnod a ddyrannwyd i'r archwiliad o arolygon y Comisiwn yn cael eu symud yn ôl i 2018-19 ac y byddai'r 2.5 diwrnod a ddyrannwyd i'r archwiliad o Adnoddau Dynol yn 2018-19 yn cael ei symud ymlaen i 2017-18 yn ei le.
**Gweithredu**: Deloitte **Erbyn**: 30 Tachwedd 2015

## 7. Archwilio Allanol: Llythyr Rheolwyr 2014-15

7.1 Esboniodd John Golding fod Llythyr y Rheolwyr yn adlewyrchu hynny a oedd wedi'i amlinellu'n barod yn Adroddiad ISA 260 yn bennaf, a deliwyd â hwnnw yn y cyfarfod blaenorol. Canfyddiadau adroddiad Llythyr y Rheolwyr oedd y gellid dibynnu ar systemau ariannol CFfDLC i gynhyrchu allbynnau cywir yn eu hanfod. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu a dim gwendidau perthnasol yn systemau cyfrifyddu a rheoli mewnol CFfDLC. Cadarnhaodd Llythyr y Rheolwyr fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad diamod ar y datganiadau ariannol ac ni wnaeth unrhyw argymhellion archwilio i CFfDLC.

## 8. Ymarferiad Dilysu'r Adolygiad o Asedau Sefydlog

8.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion canlyniadau'r ymarferiad a gynhaliwyd yn yr haf. Cyfrifwyd holl asedau CFfDLC ac eithrio 2 uned aerdymheru gludadwy a gafodd eu gwaredu yn ystod y flwyddyn.

## 9. Holiadur Hunanasesu'r Adolygiad o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

9.1 Roedd y Pwyllgor o'r farn nad oedd rhan olaf yr holiadur ynghylch p'un a oedd perfformiad arfer da'r Pwyllgor wedi gwella, yn ymdrin â'r posibilrwydd bod yr holl feysydd arfer da yn yr holiadur wedi'u rhoi ar waith. **Cytunwyd** y byddai'r rhan hon o'r holiadur yn cael ei hail-eirio'n briodol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 24 Chwefror 2016

9.2 **Cytunwyd** y byddai copi o'r holiadur yn cael ei anfon at yr aelod Pwyllgor newydd, Theo Joloza, i'w lenwi cyn belled ag y bo modd er mwyn iddo ymgyfarwyddo ag agweddau ar sut ddylai'r Pwyllgor weithio.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Tachwedd 2015

## 10. Adroddiad Cynnydd Argymhellion Archwilio

10.1 Nododd y Pwyllgor gynnydd ar yr argymhellion o'r archwiliad mewnol a oedd heb eu cyflawni. Nodwyd yr ystyriwyd bod yr argymhelliad yn 2012-13 y bu hir ddisgwyl amdano wedi'i weithredu erbyn hyn gan fod gwaith arolygon cymunedol diweddar wedi galluogi ei roi ar waith.

10.2 Roedd y ddau argymhelliad a oedd heb eu cyflawni o 2013-14 yn ymwneud â threfniadau Rheoli Cofnodion CFfDLC wedi cael dyddiadau terfyn diwygiedig, sef 31 Rhagfyr 2015, yn y cyfarfod blaenorol, ac ystyriwyd y byddai modd cyflawni yn erbyn y dyddiad hwn o hyd o ran sefydlu'r gweithdrefnau, er y cydnabuwyd y byddai'n rhaid cydymffurfio o'r dyddiad hwnnw.

10.3 O ran y pedwar o argymhellion heb eu cyflawni o 2014-15, adroddwyd fel a ganlyn:

- Roedd yr argymhelliad ynglŷn â CFfDLC yn canolbwyntio ar gwblhau'r nodiadau gweithdrefn ar gyfer arolygon ac yn sicrhau eu bod yn cael eu dilyn ar gyfer holl arolygon y dyfodol, wedi'i weithredu erbyn hyn;
- Roedd yr argymhelliad ynglŷn â dilysu data pensiynau aelodau yn disgwyl am ymateb pellach gan MyCSP.
- Roedd disgwyl o hyd y byddai'r argymhelliad bod dogfennaeth ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau a gwahanu dyletswyddau sydd ar waith yn y Comisiwn yn cael ei diweddaru i adlewyrchu cyflogeion presennol, a hefyd i gynnwys llofnodwyr awdurdodedig wedi'u diweddaru, yn cael ei weithredu erbyn y dyddiad terfyn a gytunwyd yn flaenorol, sef 31/12/15;
- Nid oedd disgwyl y byddai'r argymhelliad bod CFfDLC yn canolbwyntio ar gyfnerthu'r holl weithdrefnau prynu presennol mewn Llawlyfr Caffael cyfredol, a ddylai gynnwys gweithdrefnau ar gyfer cynnal ymarferiadau tendro, yn cael ei weithredu erbyn y dyddiad terfyn a gytunwyd yn flaenorol, sef 31/12/15. **Cytunwyd** y dylid pennu dyddiad terfyn diwygiedig i'r argymhelliad hwn, sef 31/01/16.
  **Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Tachwedd 2015

10.4 Roedd y ddau argymhelliad newydd ar gyfer 2015-16, a drafodwyd yn eitem 6 ar yr agenda, wedi cael dyddiad terfyn, sef 31/03/16.

## 11. Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP) CFfDLC

11.1 Adroddodd Mr Halsall fod CFfDLC wedi cael adolygiad IIP llawn ym mis Awst 2015, a'i fod wedi cadw ei achrediad. Adroddwyd am y canlyniad hwn yng nghyfarfod CFfDLC ym mis Medi 2015. Nodwyd hefyd y byddai IIP yn newid i system achredu wahanol yn 2017 gan na fyddai'n cael ei gefnogi'n ariannol gan Lywodraeth Cymru mwyach.

11.2 Nododd y Pwyllgor ganlyniad yr adolygiad a llongyfarchodd CFfDLC ar gadw'r achrediad, gan eu bod o'r farn ei fod yn fesur annibynnol buddiol. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn rhedeg cynllun 'Asesiad Iechyd y Gweithle Bach', a **chytunwyd** y dylai CFfDLC gael rhagor o wybodaeth am hyn ganddynt.
**Gweithredu**: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn**: 31 Ionawr 2016

## 12. Cylch Gorchwyl CFfDLC

12.1 Nododd y Pwyllgor fod CFfDLC wedi diweddaru ei Gylch Gorchwyl yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

## 13. Adroddiad Rheoli Risg

13.1 Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad, y gofrestr risgiau bresennol a’r polisi. Adroddwyd y bu nifer o newidiadau i’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ers mis Gorffennaf 2015, gydag un risg yn cael ei dileu, un risg yn cael ei diraddio i’r Gofrestr Risgiau Gweithredol a risg arall yn cael ei hychwanegu ar gyfer effaith bosibl gwaith ailddatblygu yn Llys Fitzalan. Roedd y Gofrestr Risgiau Gweithredol wedi’i hadolygu gan uwch dîm rheoli’r Comisiwn yn ystod mis Medi 2015, ac roedd nodiadau o’r newidiadau a’r rhesymau y tu ôl iddynt wedi’u cynnwys yn yr atodiadau fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol.

13.2 **Cytunwyd** y byddai’r polisi rheoli risg yn cael ei newid i adlewyrchu’r penderfyniad i gofnodi’r rheswm dros unrhyw newidiadau a wneir i’r Gofrestr Risgiau Gweithredol o ganlyniad i’r adolygiad gan y rheolwyr.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 24 Chwefror 2016

## 14. Adroddiad Monitro’r Gyllideb.

14.1 **Nodwyd** yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd i gyfarfod CFfDLC ar 15 Hydref 2015. Adroddwyd y byddai’r gyllideb ar gyfer 2015-16 yn parhau â thanwariant ar ddiwedd y flwyddyn, ac y byddai CFfDLC yn rhoi ystyriaeth i faint y gellid ei ildio’n ôl i Lywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

## 15. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

15.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion lletygarwch ar gyfer 2015-16 hyd yma.

## 16. Cwynion

16.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gwynion wedi’u derbyn hyd yma ar gyfer 2015-16.

## 17. Adroddiad a Pholisïau Chwythu’r Chwiban a Thwyll

17.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu’r chwiban na thwyll ar gyfer 2015-16 hyd yma.

## 18. Adroddiad Diogelwch Data TG

18.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau’n ymwneud â diogelwch data ar gyfer 2015-16 hyd yma.

## 19. Sicrhau Ansawdd CFfDLC

19.1 Adroddodd Mr Redmond fod CFfDLC wedi gofyn am i'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar gyfer gwaith arolwg gael eu hadolygu yn dilyn dau gamgymeriad bach mewn adroddiadau cynigion arolygon. Ers hynny, roedd proses ddrafftio, gweithdrefnau sicrhau ansawdd a chyfarwyddiadau desg CFfDLC wedi cael eu hadolygu, eu hegluro a'u cryfhau, ac adroddwyd am y diwygiadau arfaethedig i'r gweithdrefnau i gyfarfod CFfDLC yng nghyfarfod mis Medi 2015. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r adroddiad ar sicrhau ansawdd.

## 20. Unrhyw Fusnes Arall

### Newid trefniadau archwilwyr allanol

20.1 Dywedodd John Golding nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu o hyd pa archwilwyr fyddai'n cynnal yr archwiliad o gyfrifon y Comisiwn yn 2016, ond bod disgwyl y byddai hyn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Diolchodd i staff CFfDLC am eu perthynas weithio dda gyda'i dîm wrth gynnal y gwaith archwilio blynyddol. Diolchodd y Cadeirydd i John Golding a'i dîm am eu holl gymorth i CFfDLC yn ystod archwiliadau yn y gorffennol.